# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Heathfield Lodge Ltd**

**Heathfield Lodge**
**35 Heathfield**
**Abertawe**
**SA1 6EJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

28 Mehefin 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Heathfield Lodge Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Heathfield Lodge Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 03.12.2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn cael ei lywodraethu a'i oruchwylio'n dda. Dywedodd pob gweithiwr gofal wrthym eu bod yn cael cymorth ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd. Mae'r bobl yn cael cymorth a gofal da gan weithwyr gofal ymroddedig a hyfforddedig a thîm rheoli cefnogol. Roedd yr holl adborth a gasglwyd fel rhan o'r arolygiad yn gadarnhaol iawn am ddiwylliant y gwasanaeth a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel. Cadarnhaodd perthnasau hefyd fod y gwasanaeth a ddarperir o safon dda. Mae prosesau ar waith i helpu i gynyddu ymgysylltiad y bobl â'r gwaith o gynllunio eu cymorth. Gwelsom fod y bobl wedi gwneud cynnydd clir o ran canlyniadau a nodwyd yn y dogfennau cynllunio cymorth. Mae'r lefelau staffio yn briodol ac yn cyd-fynd ag anghenion a chanlyniadau'r bobl.

Mae'r amgylchedd wedi'i gyflwyno a'i gynnal a'i gadw yn dda iawn, ac mae'n lân ac yn unol â'r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben. Mae strwythur y gwasanaeth yn hyrwyddo gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, cynhwysiant a datblygu sgiliau. Cwblheir gwiriadau diogelwch ac amserlenni gwasanaethu yn unol â chanllawiau a gofynion cyfredol. Mae angen cwblhau rhywfaint o'r gwaith i fodloni canfyddiad archwiliad trydanol yn llawn. Mae mesurau rheoli heintiau ac atal COVID-19 da ar waith. Mae gwiriadau recriwtio cadarn ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfnod sefydlu a hyfforddiant trylwyr i gyflawni eu rolau'n gymwys. Mae angen rhai gwelliannau i sicrhau bod yr holl hyfforddiant gweithwyr gofal yn gyfredol a bod dogfennau recriwtio wedi'u sefydlu'n llawn, a hefyd bod y cofnodion staff yn cofnodi digwyddiadau a risg yn llawn.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl trwy gydol yr arolygiad. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y cartref ac yr ymgynghorir â hwy am eu hanghenion cymorth. Cawsom adborth cadarnhaol gan y bobl yn ystod yr arolygiad am fyw yn y gwasanaeth a'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Buom yn siarad â pherthnasau a chawsom adborth cadarnhaol iawn. Dywedodd un berthynas wrthym, *"Hapus iawn â'r gofal a'r cymorth a ddarperir, maent yn wych"*, a dywedodd un arall, *"Adborth cadarnhaol i gyd, mae'r gofal yn wych."* Caiff y bobl eu cynorthwyo i gynnal a datblygu sgiliau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cwblhau ystod eang o sgiliau byw'n annibynnol megis coginio, glanhau a golchi dillad gyda chymorth yn ôl yr angen. Mae'r bobl yn cael mynediad i'w cymuned leol gyda chymorth yn unol â chynlluniau risg a chymorth. Buom yn siarad â'r gweithwyr gofal a gwelsom y rotâu staffio. Cadarnhaodd pawb a phopeth fod lefelau staffio da ar hyn o bryd i sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu'n llawn. Dywedodd y rheolwr wrthym fod recriwtio yn gadarnhaol iawn ar hyn o bryd a bod gweithwyr gofal newydd wedi'u penodi'n ddiweddar.

Ceir goruchwyliaeth dda o ansawdd y ddarpariaeth gofal gan y rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Dywedodd y gweithwyr gofal, y bobl a pherthnasau wrthym fod cyfathrebu â'r rheolwyr yn dda a bod materion yr hysbysir amdanynt yn cael eu gweithredu yn brydlon ac yn briodol. Mae'r cynlluniau personol yn glir, yn llawn gwybodaeth ac yn fanwl, ac maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn ymwneud â chofnodion staff gofal a chynllunio risg. Roedd cofnodi risg mewn perthynas ag un person yn anghyson. Mae cynlluniau i newid neu ddisodli'r system gofnodi ar-lein bresennol i helpu i wella hyn. Mae'r gwasanaeth hefyd yn defnyddio offer asesu penodol i fesur cynnydd mewn perthynas ag iechyd meddwl ac adferiad. Mae'r darparwr yn cyflogi gweithwyr proffesiynol arbenigol i wella a chynnal y gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom gofnodion o gyfranogiad proffesiynol mewnol ac allanol yng ngofal y bobl. Mae'r bobl yn gwneud cynnydd da ac yn elwa o fyw yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal a'r rheolwyr yn cael ystod eang o hyfforddiant priodol i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion a bodloni canlyniadau'r bobl yn llawn. Fodd bynnag, nid yw pob elfen o hyfforddiant arbenigol yn gyfredol ar gyfer pob gweithiwr gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd wedi'u cynllunio.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n ddiogel ac wedi'i ddarparu yn unol â'r amcanion a ddiffinnir yn y datganiad o ddiben. Mae'r bobl yn elwa ar wasanaeth sy'n hybu ac yn cynorthwyo adferiad a hybu sgiliau byw'n annibynnol. Mae'r bobl yn ddiogel ac edrychwyd ar arferion fel gwiriadau tân a thystysgrifau diogelwch nwy a thrydan yn ystod yr arolygiad. Mae rhywfaint o waith cynnal a chadw i'w gwblhau yn dilyn archwiliad trydanol blaenorol. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn fuan. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth yn ddiogel, yn briodol ac yn unol â'r canllawiau. Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag esgeulustod a chamdriniaeth gan fod y gweithwyr gofal yn gwybod yr hyn i gadw llygad amdano a sut i leisio pryderon. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi

mewn arferion diogelu ac mae yna weithdrefnau clir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a chynlluniau risg i'w harwain. Darperir gofal yn unol â phrotocolau sy'n ymwneud â galluedd a chyfyngu ar ryddid.

## Gofal a Chymorth

At ei gilydd, mae'r dogfennau cynllunio gofal ar gyfer y bobl yn gywir ac yn gyfredol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth. Buom yn edrych ar ddwy ffeil ofal electronig a gwelsom fod cynlluniau personol sy'n cynnwys asesiadau risg ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ategir y rhain gan gofnodion 'fy nghyfarfod', sy'n dangos yr ymgynghorir â'r bobl a'u bod wedi'u cynnwys mewn perthynas â chynllunio gofal a chymorth. Gwelsom hefyd fod asesiadau ac ymyriadau arbenigol ar waith ac wedi'u dogfennu lle bo angen ac yn briodol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan weithwyr proffesiynol arbenigol a gyflogir gan y darparwr megis therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion ac ymarferwyr ymddygiadol. Mae'r cofnodion gofal yn gyffredinol gadarn a manwl, ond mae un cofnod yn anghyson o ran dogfennu canlyniadau yn dilyn digwyddiad. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol a dywedwyd wrthym fod systemau cofnodion gofal electronig amgen newydd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gyda'r bwriad o'u newid yn y dyfodol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae systemau cadarn ar waith i ddiogelu'r bobl nad oes ganddynt galluedd o ran eu hanghenion gofal a chymorth.

Cynhelir iechyd a llesiant y bobl yn frwd. Dywedodd y bobl wrthym, *"Maen nhw bob amser yn ymddiddori yn sut yr ydyn ni'n ei wneud"*, a dywedodd person arall wrthym, *"Mae'r staff yn dda iawn heb unrhyw broblemau yma."* Buom hefyd yn siarad â thair perthynas, a dywedodd un ohonynt wrthym, *"Mae'r gofal yn wych."* Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cynorthwyo yn dda ac maent yn gyfarwydd iawn â'u hoff bethau a'u cas bethau, a sut maent yn hoffi cael eu cefnogi. Mae'r staff hefyd yn gwbl ymwybodol o unrhyw risg iddynt hwy eu hunain neu'r person drwy hyfforddiant a gwybodaeth gyfredol. Mae hyn yn cynnwys strategaethau i'w defnyddio i ddad-ddwysáu unrhyw sefyllfaoedd a allai achosi niwed i'r bobl neu nhw eu hunain. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant craidd ac arbenigol i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion gofal a chymorth y bobl yn llawn. Mae rhywfaint o hyfforddiant arbenigol heb ei gyflawni megis ym maes epilepsi, atal cwympiadau ac ati. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr, a ddywedodd wrthym y bydd cynllun yn cael ei roi ar waith i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio'n llawn â'u hanghenion hyfforddi. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Caiff y bobl gyfleoedd clir i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau o fewn y gwasanaeth a'r gymuned ehangach.

Mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth ac er mwyn cynnal iechyd y bobl. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn ystafell ddynodedig. Gwelsom fod y gwiriadau tymheredd perthnasol yn cael eu cynnal gan staff profiadol, hyfforddedig. Bydd uwch aelodau o'r staff yn cynnal archwiliadau rheolaidd a gwiriadau cymhwysedd staff sy'n rhoi meddyginiaeth. Buom yn edrych ar siartiau Cofnodion

Rhoi Meddyginiaeth a gwelsom fod y rhain yn cael eu cwblhau'n gywir. Gwelsom fod atgyfeiriadau amserol a chyfathrebu da â'r gweithwyr meddygol proffesiynol yn digwydd pan fydd angen cymorth ychwanegol ar y bobl.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd sydd â chyfleusterau sy'n hyrwyddo llesiant a diogelwch y bobl. Cyflwynir y gwasanaeth i safon uchel iawn gydag ardaloedd cymunol eang wedi'u cynnal a'u cadw a'u haddurno'n dda. Mae ardal benodol ar gyfer y gweithwyr gofal gyda chyfleusterau ar wahân megis toiled a chawod. Mae yna hefyd ystafell fawr ar gyfer hyfforddiant a chyfarfodydd ac mae pob coridor yn llydan ac yn rhydd o annibendod. Gwelsom lawer o'r ystafelloedd gwely a chanfod eu bod yn fawr, wedi'u cyflwyno'n dda, ac wedi'u haddurno yn ôl chwaeth yr unigolyn, gyda chyfleusterau cawod a thoiled en-suite. Gwelsom y bobl yn ymlacio ac yn mwynhau amser gydag eraill mewn lolfa fawr ac ardal fwyta ar wahân. Mae gardd fawr wedi'i chyflwyno'n dda yn y cefn gydag ystafell ymwelwyr ar wahân y dywedwyd wrthym y byddai'n cael ei throi'n ardal weithgareddau i'r bobl. Er bod y cartref wedi'i gyflwyno'n arbennig o dda, dywedodd y rheolwr wrthym fod cynlluniau ar y gweill i osod rhai ffenestri newydd ac ailaddurno ardaloedd yn y dyfodol. Mae lloches ysmygu hefyd ar fin cael ei newid. Mae man golchi dillad bach ar wahân a gwelsom weithdrefnau da ar waith o ran rheoli heintiau a glanweithdra. Gwelsom gegin fawr ac mae Sgôr Hylendid Bwyd o 5 yn ei lle ar hyn o bryd, sef yr uchaf posibl. Byddai'n fuddiol diweddaru rhai rhannau o'r gegin a dywedodd y prif gogydd wrthym y gofynnwyd am hyn. Mae swyddfa ar wahân dan glo ar gyfer storio cofnodion yn ddiogel ac ystafell feddyginiaeth bwrpasol, ddiogel, wedi'i chyflwyno'n dda. Mae gweithdrefnau da ar waith, megis cofnodi a dogfennu tymheredd yr ystafell feddyginiaeth a'r oergelloedd/rhewgelloedd. Mae gardd fawr wedi'i chynnal a'i chadw'n dda yn y cefn y gellir ei chyrraedd ar hyd ramp a theras mawr gyda golygfeydd ar draws Bae Abertawe.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i leihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos y cynhelir gwiriadau i nodi unrhyw broblemau ac i fynd i'r afael â nhw. Gwelsom fod y gwiriadau hyn, ar y cyfan, yn gyfredol. Er hynny, roedd gwaith a oedd yn ofynnol yn dilyn archwiliad trydanol cyffredinol pum mlynedd a gwblhawyd y llynedd yn dal heb ei wneud adeg yr arolygiad. Dywedodd y rheolwr wrthym fod dyddiad bellach wedi'i drefnu ar gyfer cwblhau'r gwaith. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae deunyddiau sydd â'r potensial i achosi niwed yn cael eu trefnu'n dda a'u storio'n ddiogel mewn amrywiol gypyrddau diogel yn y cartref. Mae offer codi a chario yn parhau i gael eu gwasanaethu'n rheolaidd a chaiff y lifft ei wasanaethu yn unol â'r gofynion. Mae offer atal ffenestri yn eu lle i sicrhau diogelwch y bobl. Mae trefniadau diogelwch tân da ar waith, gan gynnwys gwiriadau rheolaidd o'r system larwm tân. Mae'r staff yn gwbl ymwybodol o beth i'w wneud os bydd tân. Mae cynlluniau gwacáu personol ar waith ar gyfer y bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu a goruchwyliaeth effeithiol yn y cartref drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Gwelsom yr adroddiad chwe-misol diweddar ar ansawdd y gofal ac adroddiadau ymweliadau'r unigolyn cyfrifol. Mae'r adroddiadau yn cynnwys adborth gan y bobl a'r staff yn y gwasanaeth. Mae'r adroddiadau hefyd yn nodi beth y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda ac yn cynnwys gwelliannau pellach ar gyfer y dyfodol. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol mewn cyswllt rheolaidd â'r gwasanaeth. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru lle bo'n briodol. Mae'r datganiad o ddiben wedi'i adolygu ac y mae'n adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Mae yna ganllaw manwl ac eglur i'r gwasanaeth ar gyfer pobl a pherthnasau. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael yn y Gymraeg yn ôl y gofyn. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod lefelau staffio'n dda a dywedodd y rheolwr fod recriwtio yn gweithio'n dda a bod tîm llawn o staff ar waith ar hyn o bryd. Mae'r asiantaethau priodol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn cael eu hysbysu pan fo angen o unrhyw faterion sylweddol sy'n cael effaith ar y bobl neu'r gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y gwasanaeth yn sefydlog iawn ac nad oes unrhyw bryderon neu gwynion ar hyn o bryd.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn gan systemau cyflogaeth a recriwtio cadarn a diogel. Cedwir yr holl ffeiliau'r staff yn ddiogel ym mhrif swyddfa'r darparwr. Wrth wirio tair ffeil staff, gwelsom fod y gwiriadau a'r dogfennau perthnasol bron i gyd ar waith. Dywedwyd wrthym nad oedd tystlythyrau ar gyfer un aelod o staff ar gael ar hyn o bryd. Dywedodd y rheolwr adnoddau dynol wrthym ei fod yn y broses o drosglwyddo'r holl wybodaeth i system newydd. Bydd archwiliad yn cael ei gwblhau yn awr i sicrhau bod yr holl wybodaeth a dogfennau perthnasol yn eu lle a'u bod wedi'u trosglwyddo'n briodol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Gwelsom broses sefydlu dda gyda'r gweithwyr gofal yn siarad yn gadarnhaol am y cyfnod sefydlu a gawsant. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn gweithio trwy gofrestriad gweithwyr gofal gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

Mae'r cyfathrebu'n gyson dda, ac mae'r staff yn teimlo eu bod wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n dda gan y rheolwyr. Mae tystiolaeth yn y cofnodion goruchwylio bod yr holl staff yn cael eu goruchwylio bob tri mis ac yn cael arfarniadau blynyddol. Gwelsom ddiwylliant cefnogol ac agored yn y gwasanaeth dan arweiniad uwch-dîm hawdd mynd ato ac ymatebol. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym fod yna *"Reolwr cefnogol iawn a pholisi drws agored"*, a dywedodd un arall, *"Rwy'n cael fy nghefnogi'n llwyr – mae'r hyfforddiant yn anhygoel. Mae'r rheolwyr yn wirioneddol gefnogol."*

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Roedd adroddiad gosodiad trydanol pum mlynedd â'r dyddiad 07.12.21 yn 'anfoddhaol' ac yn manylu ar | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | waith ychwanegol i sicrhau diogelwch nad oedd wedi’i gwblhau gan y darparwr ar adeg yr arolygiad. | |
| 35 | Fel rhan o arolygiad llawn a gwblhawyd ar 28.06.22, gofynnwyd am wybodaeth recriwtio gan y darparwr. Nid oedd tystlythyrau cyflogaeth ar gael ar gyfer un aelod o staff sy’n gweithio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. | Newydd |
| 59 | Fel rhan o’r ymweliad arolygu ar 28.06.22, cwblhawyd archwiliad o ffeiliau cymorth. Nodwyd anghysondeb o ran cofnodi digwyddiad ar y system cofnodion electronig. | Newydd |
| 36 | Cynhaliwyd arolygiad llawn gan AGC ar 28.06.22. Fel rhan ohono, gofynnwyd am wybodaeth am hyfforddiant ar gyfer yr holl staff sy’n gweithio yn y gwasanaeth. Roedd tystiolaeth o gydymffurfedd da mewn perthynas â hyfforddiant staff craidd, ond mae’r hyfforddiant arbenigol a ddarperir yn anghyson ac mae gan rai staff hyfforddiant sydd heb ei gwblhau eto. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 15/08/2022